



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 923 (Cy.132)

2011 No. 923 (W.132)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau Hysbysiadau) (Cymru)
2011

The Marine Licensing (Notices
Appeals) (Wales) Regulations 2011

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud apelau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn rhai hysbysiadau a roddir o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009").

These Regulations provide for appeals to be made to the First-tier Tribunal against certain notices issued under Part 4 of the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the 2009 Act").

Yr hysbysiadau yw—

The notices are—

- (a) hysbysiad sy'n amrywio, yn atal dros dro neu'n dirymu trwydded forol, neu'n estyn cyfnod ataliad, a ddyroddir o dan adran 72 o Ddeddf 2009, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag ef (rheoliadau 2(a) a 3);
- (b) hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, hysbysiad stop, neu hysbysiad diogelwch brys, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi mewn perthynas ag ef (rheoliadau 2(b) a 4). Gweler adran 115 o Ddeddf 2009 am ddiffiniadau o'r hysbysiadau hyn .

- (a) a notice varying, suspending or revoking a marine licence, or extending a period of suspension, issued under section 72 of the 2009 Act in relation to which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority (regulations 2(a) and 3);
- (b) a compliance notice, a remediation notice, a stop notice, or an emergency safety notice, in relation to which the Welsh Ministers are an enforcement authority (regulations 2(b) and 4). See section 115 of the 2009 Act for definitions of those notices.

Mae rheoliad 5 yn pennu pwerau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, a rheoliad 6 yn pennu darpariaeth ar gyfer adennill unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad o'r Tribiwnlys hwnnw.

Regulation 5 sets out powers of the First-tier Tribunal, and regulation 6 sets out provision for recovery of any sum payable pursuant to a decision of that Tribunal.

Mae asesiad llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

A full impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or at the Welsh Assembly Government website at www.wales.gov.uk.

2011 Rhif 923 (Cy.132)

2011 No. 923 (W.132)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

**Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau Hysbysiadau) (Cymru)
2011**

**The Marine Licensing (Notices
Appeals) (Wales) Regulations 2011**

Gwnaed

22 Mawrth 2011

Made

22 March 2011

Yn dod i rym

6 Ebrill 2011

Coming into force

6 April 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108 o'r Ddeddf honno.

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 108 of that Act.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(f) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

In accordance with section 316(6)(b) and (7)(f) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by, a resolution of, the National Assembly for Wales.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Marine Licensing (Notices Appeals) (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2011.

(3) In these Regulations "the 2009 Act" ("*Deddf 2009*") means the Marine and Coastal Access Act 2009.

Cymhwysio

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru—

- (a) yn awdurdod trwyddedu priodol(1) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod trwyddedu" yn unol â hynny);
- (b) yn awdurdod gorfodi(2) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod gorfodi" yn unol â hynny).

Apelau yn erbyn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol

3.—(1) Caiff person y dyroddwyd hysbysiad iddo o dan adran 72 o Ddeddf 2009 (hysbysiad yn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol neu estyn cyfnod ataliad) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf(3) yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Atelir hysbysiad, y cyfeirir ato ym mharagraff (1) sy'n amrywio trwydded forol, mewn perthynas â'r amrywiad hwnnw, hyd nes penderfynir yr apêl.

(3) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad arall y cyfeirir ato ym mharagraff (1), yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop a hysbysiadau diogelwch brys

4.—(1) Caiff person y dyroddwyd iddo unrhyw un o'r hysbysiadau ym mharagraff (2) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn yr hysbysiad.

- (2) Yr hysbysiadau yw—
- (a) hysbysiad cydymffurfio;
 - (b) hysbysiad adfer;
 - (c) hysbysiad stop;
 - (ch) hysbysiad diogelwch brys(4).

(1) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) am ddiffiniad o'r rhanbarth hwnnw.

(2) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei chyfer yn rhinwedd adran 114(2) o Ddeddf 2009.

(3) Neilltuir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010 (O.S. 2010/2655). Pennir y rheolau trefniadol mewn perthynas ag apelau o'r fath yn Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976).

(4) Ynglŷn â'r hysbysiadau a grybwyllir ym mharagraff (2) (a) i (d), gweler adrannau 90, 91, 102 a 104 o Ddeddf 2009.

Application

2. These Regulations apply in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are—

- (a) the appropriate licensing authority(1) (and references in these Regulations to "the licensing authority" are to be read accordingly);
- (b) an enforcement authority(2) (and references in these Regulations to "the enforcement authority" are to be read accordingly).

Appeals against variation, suspension or revocation of marine licence

3.—(1) A person to whom a notice under section 72 of the 2009 Act (notice varying, suspending or revoking a marine licence, or extending a period of suspension) has been issued may appeal to the First-tier Tribunal(3) against the notice.

(2) A notice referred to in paragraph (1) varying a marine licence is suspended in relation to that variation pending determination of the appeal.

(3) The First-tier Tribunal may suspend any other notice referred to in paragraph (1), wholly or in part, pending determination of the appeal.

Appeals against enforcement notices, stop notices and emergency safety notices

4.—(1) A person to whom any of the notices referred to in paragraph (2) has been issued may appeal to the First-tier Tribunal against the notice.

- (2) The notices are—
- (a) a compliance notice;
 - (b) a remediation notice;
 - (c) a stop notice;
 - (d) an emergency safety notice(4).

(1) By virtue of section 113(4)(b) of the 2009 Act, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on a licensable marine activity in relation to Wales and the Welsh inshore region, other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority by virtue of sections 113(4)(a) and (5) of that Act. *See* section 322(1) for a definition of the Welsh inshore region.

(2) The Welsh Ministers are an enforcement authority for the area for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority by virtue of section 114(2) of the 2009 Act.

(3) Appeals are assigned to the General Regulatory Chamber of the First-tier Tribunal by virtue of article 3 of the First-tier Tribunal and Upper Tribunal (Chambers) Order 2010 (S.I. 2010/2655). The Tribunal Procedure (First-tier Tribunal) (General Regulatory Chamber) Rules 2009 (S.I. 2009/1976) set out procedural rules relating to such appeals.

(4) In relation to the notices mentioned in paragraph (2)(a) to (d), see sections 90, 91, 102 and 104 of the 2009 Act.

(3) Atelir hysbysiad cydymffurfio ac unrhyw ofyniad mewn unrhyw hysbysiad o'r fath, hyd nes penderfynir apêl yn erbyn yr hysbysiad.

(4) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad adfer, hysbysiad stop neu hysbysiad diogelwch brys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

Apelau — darpariaethau pellach

5.—(1) Mewn unrhyw apêl, mae'r baich prawf ar yr awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi, (fel y bo'n briodol), ac—

- (a) os yw'r apêl yn ymwneud â'r honiad o gyflawni tramgwydd, rhaid i'r awdurdod brofi y cyflawnwyd y tramgwydd, y tu hwn i amheuaeth resymol, a
- (b) mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu'r safon o brawf.

(2) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

- (a) tynnu'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo yn ôl;
- (b) cadarnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo;
- (c) amrywio'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo;
- (ch) cymryd unrhyw gamau y gallai'r awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi (fel y bo'n briodol) eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gofyniad neu'r hysbysiad;
- (d) cyfeirio'r penderfyniad a ddylid cadarnhau'r hysbysiad, neu unrhyw fater arall ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at yr awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi (fel y bo'n briodol).

Adfer symiau taladwy

6.—(1) Rhaid talu unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf o fewn 56 diwrnod ar ôl y penderfyniad hwnnw.

(2) Bydd unrhyw swm o'r fath nas telir o fewn y cyfnod hwnnw —

- (a) yn adenilladwy fel dyled sifil;
- (b) yn adenilladwy ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

(3) A compliance notice and any requirement in any such notice, is suspended pending determination of an appeal against the notice.

(4) The First-tier Tribunal may suspend a remediation notice, a stop notice or an emergency safety notice, wholly or in part, pending determination of the appeal.

Appeals — further provisions

5.—(1) In any appeal the burden of proof is on the licensing authority or enforcement authority (as appropriate), and—

- (a) if the appeal involves the alleged commission of an offence the authority must prove the commission of the offence beyond reasonable doubt, and
- (b) the First-tier Tribunal must determine the standard of proof in any other case.

(2) The First-tier Tribunal may—

- (a) withdraw the notice or any requirement contained in it;
- (b) confirm the notice or any requirement contained in it;
- (c) vary the notice or any requirement contained in it;
- (d) take such steps as the licensing authority or enforcement authority (as appropriate) could take in relation to the act or omission giving rise to the notice;
- (e) remit the decision whether to confirm the notice, or any matter relating to that decision, to the licensing authority or enforcement authority (as appropriate).

Recovery of sums payable

6.—(1) Any sum payable in pursuance of a decision of the First-tier Tribunal must be paid within 56 days of that decision.

(2) Any such sum not paid within that time is—

- (a) recoverable as a civil debt;
- (b) recoverable, on the order of a court, as if payable under a court order.

Jane Davidson

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a
Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing,
one of the Welsh Ministers

22 Mawrth 2011

22 March 2011

©[©] Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 923 (Cy.132)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

LLYGRU MOROL, CYMRU

**TRIBIWNLYSOEDD AC
YMCHWILIADAU, CYMRU**

Rheoliadau Trwyddedu Morol
(Apelau Hysbysiadau) (Cymru)
2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 923 (W.132)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**MARINE POLLUTION,
WALES**

**TRIBUNALS AND INQUIRIES,
WALES**

The Marine Licensing (Notices
Appeals) (Wales) Regulations 2011